Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Llanfairfechan

**Ffordd Y Pentref**
**Llanfairfechan**
**Conwy**
**LL33 0PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Babanod Llanfairfechan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Babanod Llanfairfechan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 87 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 33 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 19.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 10.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 6.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.15% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/11/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/06/2022 |
| Mae'r pennaeth hefyd yn arwain Ysgol Iau Pant y Rhedyn yn y pentref. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion yn mwynhau eu hamser yn Ysgol Babanod Llanfairfechan yn fawr iawn. Mae hyn oherwydd bod eu hathrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol iddynt eu gwneud, ac mae hyn yn gwneud dysgu'n gyffrous ac yn hwyl. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus o oedran cynnar.

Dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol yn poeni amdanynt a'u bod yn gallu troi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu'n cael anawsterau. Mae arweinwyr wedi gweithio'n galed i greu'r ethos tawel a meithringar hwn ac mae ganddynt rôl allweddol mewn sicrhau dysgu effeithiol yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, creadigol ac uchelgeisiol. Caiff staff eu hannog i roi cynnig ar ddulliau addysgu newydd a datblygu'r amrywiaeth o brofiadau dysgu y maent yn eu cynnig i ddisgyblion. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae disgyblion eisiau dysgu amdano, ac yn gwau eu syniadau mewn dilyniannau cynlluniedig o wersi sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae ystafelloedd dosbarth a mannau awyr agored yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol a gweithredol lle mae disgyblion yn mwynhau digonedd o gyfleoedd i gydweithio mewn parau a grwpiau bach.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, ac fel tîm, maent yn rhannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. O ganlyniad, ceir ethos ysgol gyfan effeithiol ac ymdeimlad o waith tîm lle mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Mae'r ysgol yn dda yn nodi'r meysydd o'i gwaith sydd fwyaf effeithiol a'r agweddau hynny y mae angen eu gwella. Mae gan y corff llywodraethol ran bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinwyr yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Herio pob un o'r disgyblion i wella eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella sillafu disgyblion

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Mae'r pandemig wedi arafu'r cynnydd hwn ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i siarad ag ymwelwyr am eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn siarad yn bwrpasol yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae, er enghraifft yn y sioe bypedau chwarae rôl yn yr awyr agored a'r caffi. Maent yn mynegi eu syniadau'n dda ac yn siarad â brwdfrydedd, er enghraifft wrth ail-greu golygfa o'r traeth ar ôl iddynt ymweld â'r traeth yn ddiweddar. Maent yn gwrando'n dda ar gyfraniadau disgyblion eraill ac yn ymateb yn ystyriol i'w syniadau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus. Maent yn addasu eu lleferydd yn briodol, yn unol â'r sefyllfa. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn wybodus am yr angen i leihau gwastraff niweidiol yn y môr, gan ddefnyddio geirfa briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau deall pwysigrwydd llyfrau yn gynnar, ac yn datblygu brwdfrydedd am ddarllen. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau a'u hail-ddweud wrth eu ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml ond sy'n briodol i gyfnod. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion llyfrau. Maent yn defnyddio'r clawr i ragweld beth allai testun y stori fod, ac yn trafod beth maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis llyfrau yn annibynnol, ac yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol. Defnyddiant eu medrau ffoneg yn effeithiol i ddeall geiriau anghyfarwydd.

O oedran ifanc, mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd am ysgrifennu wrth arbrofi â chreu marciau. Maent yn mynd ymlaen i ysgrifennu ag annibyniaeth a rhugldeb cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin yn deall yn gyflym fod llythrennau a geiriau yn cyfleu ystyr. Maent yn mwynhau creu marciau mewn tywod a gliter ac yn defnyddio paent i geisio ysgrifennu seiniau llythrennau. Yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am ffoneg yn effeithiol i ysgrifennu brawddegau syml yn gysylltiedig â'u gwaith testun am fywyd ar y fferm. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o amrywiaeth eang o wahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda yn eu gwaith eu hunain. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu amrywiaeth gynyddol o frawddegau ac yn datblygu eu syniadau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad newyddion am fôr-lawes enfawr a welwyd oddi ar yr arfordir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio atalnodi sylfaenol fel priflythrennau ac atalnodau llawn â chywirdeb cynyddol yn eu hysgrifennu. Fodd bynnag, er bod llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau amlder uchel yn gywir, mae gormod o gamgymeriadau sillafu cyffredin yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol nac yn

estynedig i’r safon y gallant. Mae defnydd rheolaidd o dempledi ysgrifennu yn cyfyngu gormod ar eu hysgrifennu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth fathemategol gadarn. O roi’r cyfle iddynt, maent yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn annibynnol ar draws meysydd dysgu. Mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd cryf â chyfrif, paru, adnabod rhifau i 10 ac adnabod patrymau rhif i 20. Mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith bob dydd ac iaith fathemategol i siarad am eu syniadau, er enghraifft wrth dywallt gwahanol feintiau o hylif i mewn i gynwysyddion amrywiol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis ac yn defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol i ddatrys problemau mathemategol, er enghraifft wrth ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau yn yr ardal chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion yn casglu a chofnodi data yn fedrus, er enghraifft wrth greu graffiau bloc i ddangos y gwahanol fathau o sbwriel a gasglon nhw ar eu hymweliad â’r traeth. Maent yn dadansoddi’r data ac yn dehongli’r canlyniadau’n synhwyrol.

Mae datblygiad medrau Cymraeg disgyblion wedi cael ei rwystro gan gyfleoedd dysgu a gollwyd yn deillio o’r pandemig. Serch hynny, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn mwynhau canu caneuon Cymraeg ac yn copïo symudiadau’r athro i atgyfnerthu geirfa allweddol. Mae disgyblion hŷn yn dechrau adennill hyder yn siarad Cymraeg. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi ymatebion sylfaenol yn ystod trafodaethau ag athrawon. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall mwy o Gymraeg nag y gallant ei siarad. Fodd bynnag, nid yw’r medrau hyn mor ddatblygedig ag y gellir ei ddisgwyl ar gyfer eu cyfnod datblygu. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigon hyderus mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn defnyddio dyfeisiau digidol yn hyderus i ymarfer medrau rhif ac yn defnyddio rhaglen beintio yn greadigol i ail-ddweud stori Blodeuwedd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn mewngofnodi yn annibynnol i’w cyfrifon digidol ac yn creu pamffledi, er enghraifft i gofnodi eu gwaith ar ŵyl Divali ac ychwanegu testun at stori o dan y dŵr. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau da o ran trin data wrth gofnodi’r gwahanol fathau o sbwriel maent wedi dod o hyd iddo wrth lanhau traethau. Maent yn cofnodi eu canfyddiadau ar ffurf graff bar.

Mae disgyblion yn mwynhau defnyddio eu medrau creadigol ac artistig. Maent yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau yn greadigol, er enghraifft i greu creaduriaid mytholegol o dan y dŵr. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dangos medrau corfforol echddygol manwl da, gan ddefnyddio siswrn, glud a brwshys paent yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau creadigol yn dda, er enghraifft wrth beintio yn arddull Van Gogh ar ôl darllen stori ‘Katie and the Sunflowers’. Maent yn siarad yn frwdfrydig am gymryd rhan mewn sesiynau cerdd gan ddefnyddio clychau i gyfansoddi alawon syml. Mae llawer o ddisgyblion ar draws y grŵp oedran yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn egnïol mewn amrywiaeth eang o weithgarwch corfforol, gan gynnwys sesiynau a gynhelir gan hyfforddwyr o’r clwb rygbi lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hyder, eu gallu i weithio gyda phobl eraill, eu ffitrwydd a’u lles.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn hyderus yn amgylchedd yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn foesgar â'i gilydd a gydag ymwelwyr. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn mae eu ffrindiau a'u hathrawon yn ei ddweud, ac yn ymateb i'w syniadau yn ystyriol. Maent yn cyd-chwarae, yn cymryd eu tro, ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda, wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amser egwyl.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn rhydd rhag problemau bwlio. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan staff, yn gwybod ble i droi os oes angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando arnynt ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu, ac yn frwdfrydig ac awyddus i roi cynnig ar bethau newydd. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus o oedran cynnar. Maent yn ymdawelu'n gyflym i gwblhau eu tasgau mewn gwersi. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda ac yn dyfalbarhau i gwblhau eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio mewn parau, er enghraifft pan fyddant yn yr ardaloedd chwarae rôl. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ethos dysgu effeithiol yn yr ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles llawer o ddisgyblion. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwydnwch yn eu dysgu ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas pan fyddant yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i gymryd rhan mewn cynllunio eu testunau tymhorol. O ganlyniad i hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu dysgu. Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu o oedran cynnar, a rhannu pa mor dda y maent yn teimlo eu bod wedi mynd i'r afael â thasg. Maent yn ymateb yn dda i adborth gan oedolion i wella'u gwaith a datblygu eu medrau ymhellach. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn dechrau datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Fodd bynnag, ar adegau, collir cyfleoedd i herio disgyblion i wella eu medrau sillafu a'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth eang o amrywiaeth ddiwylliannol, er enghraifft trwy ddysgu am wahanol grefyddau. Maent yn dechrau deall rhai o'r problemau moesegol sy'n wynebu'r byd, fel y problemau mae gwastraff yn eu hachosi i'r amgylchedd ac effaith gwastraff ar y cefnforoedd, a'r heriau sy'n wynebu plant wedi'u heffeithio gan ryfel. Maent yn esbonio effaith llygru bywyd môr â phlastigau yn glir. Mae'r gwaith hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol. Mae disgyblion yn falch o'u hymdrechion i gefnogi elusennau lleol, fel creu hamper Nadolig ar gyfer trigolion cartref gofal lleol, a chefnogi'r banc bwyd lleol. Maent yn cyfrannu at apêl i ddarparu toiledau glân ar gyfer teuluoedd yn Sambia, ac at yr apêl ddiweddar i gefnogi teuluoedd wedi'u heffeithio gan y rhyfel yn Wcráin. Caiff y mentrau hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein; er enghraifft, maent yn gwybod i beidio â rhannu eu cyfrineiriau. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles eu hunain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod am bwysigrwydd cadw'n iach ac yn heini. Maent yn siarad yn wybodus am ddewisiadau bwydydd iach ar gyfer byrbrydau a'r angen i yfed dŵr yn rheolaidd. Maent yn adnabod 'Bwydydd Go and Woah' a sut y dylid eu defnyddio i ddylunio pryd o fwyd iach. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, gan ymgymryd yn rheolaidd eu hunain ag amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer dysgu, a'i nod yw ysbrydoli a datblygu dysgwyr annibynnol a hyderus. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu'n hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus, ac mae athrawon yn darparu profiadau cyffrous ac ysgogol ar gyfer pob un o'r disgyblion. Maent yn mynd ati i ddylunio'r cwricwlwm mewn ffordd fyfyriol a chydweithredol ac maent yn weithgar o fewn y consortiwm lleol wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae staff wedi creu cymeriadau dychmygus, sef 'Cadi Creadigol, Marc Mynd Amdani, Gwen Gwybodus ac Aled ar eich Marciau' er mwyn i'r disgyblion ymgyfarwyddo â phedwar diben y Cwricwlwm, ac yn cyfeirio at y rhain yn rheolaidd yn ystod gwersi. Yn ystod eu cyfarfodydd wythnosol, mae staff yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd eu hymagwedd at y cwricwlwm i sicrhau ei bod yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion.

Mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy themâu trawsgwricwlaidd fel 'Bywyd ar y fferm' neu 'O dan y Môr', sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff, disgyblion a rhieni gyfrannu'n bwrpasol at y cynllunio. O ganlyniad, caiff disgyblion eu cynnwys yn gynyddol mewn ffurfio eu dysgu eu hunain. Mae athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion eu disgyblion, ac yn darparu tasgau pwrpasol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am lefel anhawster gweithgareddau wedi'u cynllunio, er enghraifft trwy ddewis 'Tasg Wych, Waw neu Anhygoel'.

Mae athrawon yn cynllunio cydbwysedd effeithiol o weithgareddau wedi'u harwain gan staff, a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol o fewn y dosbarth a'r ardal awyr agored. Er gwaethaf yr anawsterau a achosir gan y safle, mae athrawon wedi gwneud defnydd dychmygus a chreadigol o'r mannau awyr agored i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol. Caiff yr ardaloedd hyn eu haddasu'n rheolaidd i ymestyn thema'r dosbarth, ac fe gânt effaith gref ar ddatblygu dysgu a lles disgyblion, yn enwedig eu medrau corfforol a datrys problemau. Mae'r cyfleoedd hyn i ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol yn darparu sylfaen gadarn i ddisgyblion wneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Caiff cyfraniadau disgyblion ac oedolion eu hymgorffori'n effeithiol i greu'r arddangosfeydd lliwgar ac ysgogol, sy'n amlwg yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Mae staff yn sicrhau bod gwaith disgyblion yn

cael ei arddangos yn ddeniadol. Mae hyn yn gwella hunan-barch disgyblion yn llwyddiannus.

Mae pob un o'r staff yn sefydlu perthnasoedd gweithio hynod gadarnhaol gyda disgyblion. Mae hyn yn creu amgylchedd gweithio tawel ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau i oedolion, a gofyn am help â'u dysgu. Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Defnyddiant holi yn dda i symud dysgu disgyblion ymlaen a chefnogi dealltwriaeth, yn unol ag anghenion disgyblion. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon yn fedrus ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol i gefnogi eu dysgu ehangach. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu, er enghraifft i gyfathrebu â'r cyngor lleol ynghylch faint o sbwriel sydd ar y traeth neu drwy ysgrifennu stori ar y testun o dan y dŵr. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn bob amser yn sicrhau dilyniant dros gyfnod ym medrau ysgrifennu a sillafu estynedig disgyblion. Mae defnydd rheolaidd o dempledi ysgrifennu yn cyfyngu gormod ar eu hysgrifennu. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth brynu a gwerthu eitemau yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau digidol i gefnogi eu dysgu ehangach, er enghraifft trwy gofnodi eu gweithgareddau.

Mae pob aelod o staff yn sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg a gweladwy ar draws yr ysgol. Maent yn cyflwyno gweithgareddau Cymraeg fel caneuon, hwiangerddi, gemau, a gweithgareddau'r Urdd, sydd i gyd yn cyfrannu at ymestyn ethos Cymreig yr ysgol. Mae pob un o'r oedolion yn defnyddio'r Gymraeg yn aml ac yn hyderus fel rhan o'r gwersi y maent yn eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da dros gyfnod.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i'w disgyblion, ac yn ymyrryd yn sensitif ar adegau priodol yn ystod y wers i gynorthwyo disgyblion a darparu adborth effeithiol wrth iddynt weithio. Gwnânt ddefnydd effeithiol o fentrau fel 'Sali Seren' i helpu disgyblion ddeall yn well beth mae angen iddynt ei wneud i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain gan ddefnyddio cod lliw syml i nodi pa mor dda maent wedi gwneud a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, lle mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd. Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd, a'r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion ac yn sicrhau bod yr ysgol yn cefnogi amgylchedd tawel a meithringar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, ac yn derbyn gofal. Mae'r ffocws cryf hwn ar wella lles disgyblion yn agwedd allweddol ar ddarpariaeth yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at hapusrwydd a lles disgyblion. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol yn ystod y pandemig.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cynhaliodd arweinwyr ymagwedd wydn, hyblyg ac amyneddgar tuag at gynorthwyo'r disgyblion. Mae'r ffocws diwyro hwn ar gefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion wedi parhau ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am unrhyw bryderon personol sydd ganddynt. Un o nodweddion nodedig ymrwymiad yr ysgol i les disgyblion yw Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Haf. Parhaodd y ddarpariaeth hon trwy gydol y cyfnodau clo, gan ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol ar gyfer disgyblion, fel chwaraeon, coginio ac ymweliadau â'r llyfrgell leol. Sicrhaodd hyn fod llawer o ddisgyblion wedi gallu parhau â'u dysgu, gan hefyd gadw eu hunain yn heini ac yn iach.

Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfathrebu a'r arweiniad a ddarperir gan staff ynghylch dysgu a lles eu plant. Cyn y pandemig, trefnodd yr ysgol foreau agored rheolaidd pan oedd rhieni'n gallu ymweld â'r ysgol i weithio ochr yn ochr â'u plentyn, a thrafod eu cynnydd a'u lles gydag athrawon. Helpodd hyn y rhieni i fod yn fwy ymwybodol o sut gallent helpu a chefnogi eu plant gartref.

Mae gan yr ysgol systemau tra datblygedig ac effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'n paratoi'n dda ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau anghenion dysgu ychwanegol cenedlaethol newydd. Mae ganddi brosesau clir i nodi disgyblion sydd angen cymorth, cynllunio ymyriadau a gwerthuso effaith y gwaith hwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn magu hyder ac yn dangos brwdfrydedd o'r newydd tuag at ddysgu, yn ogystal â dangos gwelliant nodedig yn eu medrau cymdeithasol wrth iddynt weithio tuag at eu targedau personol. Mae staff yn gweithio'n agos ag asiantaethau allanol fel staff lleferydd ac iaith i gynnig darpariaeth a chymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion penodol, a gwerthuso effaith hyn ar ddysgu.

Mae ethos yr ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion archwilio eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, a chymdeithasol a darganfod nodweddion crefyddau eraill. Mae athrawon yn nodi cyfleoedd yn rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd pwysig fel cyfeillgarwch a gonestrwydd, trwy ofyn cwestiynau fel 'Beth sy'n gwneud ffrind da?' Mae staff yn darparu cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol, er enghraifft pan fyddant yn cyfrannu at y gwasanaeth Nadolig yn yr Eglwys, neu wrth gymryd rhan mewn mentrau cymunedol fel glanhau traethau a 'Goleuo Llan' adeg y Nadolig.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a dychmygus, er enghraifft wrth greu modelau o greaduriaid y môr, neu wrth ddefnyddio adnoddau digidol i greu delweddau o gymeriad o fytholeg Cymru, fel Blodeuwedd. Hefyd, mae'r amrywiaeth o gyfleoedd creadigol yn galluogi'r disgyblion i ddysgu'n helaeth am gelf ar raddfa ehangach, er enghraifft pan fyddant yn creu eu paentiadau lliwgar eu hunain o flodau haul yn seiliedig ar waith Vincent van Gogh.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am wneud dewisiadau iach ynglŷn â ffordd o fyw. Maent yn sicrhau bod dŵr ar gael trwy gydol y dydd a bod ffrwythau ar gael amser chwarae. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, a mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gadw'n heini.

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau cadarn i sicrhau diogelwch disgyblion. Mae ei threfniadau diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan staff ddealltwriaeth glir o sut i wneud yn siŵr fod disgyblion yn ddiogel ac yn cael gofal da. Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn agos, ac yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allanol i ymgysylltu â disgyblion a'u teuluoedd i gefnogi cyfraddau presenoldeb da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth glir gyda phwyslais ar hapusrwydd plant - 'Trwy chwarae a chwerthin, mae meithrin y plentyn'. Caiff y pennaeth gymorth da gan y penaethiaid cynorthwyol, ac mae pob aelod o staff yn hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd cytûn yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn creu ysgol hapus, ofalgar a chlòs lle mae disgyblion yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hyderus. Mae arweinyddiaeth effeithlon a gofalgar y pennaeth trwy'r pandemig wedi rhoi sicrwydd i staff, llywodraethwyr, disgyblion, a rhieni, ac wedi cryfhau'r ysgol i wynebu heriau yn y dyfodol yn hyderus.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, ac yn cynorthwyo a herio staff i fodloni'r rhain yn llwyddiannus. O ganlyniad, ceir ethos tîm cryf. Mae pob aelod o staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i gefnogi ei gilydd ac ysgogi gwelliant yn yr ysgol. Ceir diwylliant cadarnhaol o rannu arferion ac addysgeg effeithiol o ran y cyfnod sylfaen, sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu cymell yn llwyddiannus. Mae hyn yn galluogi staff i gynllunio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd dysgu cyfoethog ac ysgogol ar gyfer disgyblion, dan do ac yn yr ardaloedd awyr agored, fel ei gilydd.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae trefniadau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol gan ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol wedi'u gwreiddio'n dda, ac yn galluogi arweinwyr i nodi'n glir agweddau ar waith yr ysgol sydd angen eu gwella fwyaf. Mae arweinwyr yn rhannu eu harsylwadau o weithgareddau monitro ac yn gofyn cwestiynau allweddol i staff a llywodraethwyr eu trafod mewn cyfarfodydd. Mae'r rhain yn effeithiol wrth helpu pob aelod o staff a llywodraethwyr i ddeall pam mae angen gwella agweddau penodol ar waith yr ysgol. Mae'r wybodaeth a gesglir ganddynt, p'un a yw am gynnydd disgyblion neu'u hagweddau at ddysgu, hefyd yn helpu arweinwyr a llywodraethwyr i werthuso p'un a yw unrhyw newidiadau y mae'r ysgol yn eu gwneud yn fuddiol i ddisgyblion, yn unol â'r bwriad.

Mae llawer o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn cefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, diwygio anghenion dysgu ychwanegol a chefnogi lles disgyblion. Mae cynllunio meddylgar a thra ystyriol yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus. Ers dychwelyd i'r ysgol, mae arweinwyr wedi nodi bod angen gwella defnydd disgyblion o'r Gymraeg a'u medrau ysgrifennu a sillafu estynedig. Mae nodau tymor byr a thymor hwy yn realistig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol a hyfforddiant gwerth chweil. Gwnânt ddefnydd effeithiol o bartneriaethau strategol gydag ysgolion lleol eraill i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar lawer o

agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft annog annibyniaeth disgyblion a'u gallu i ddilyn eu trywyddau ymholi eu hunain, fel dysgu am fywyd o dan y môr. Cyn y pandemig, fe wnaeth staff elwa ar ymweld â gwledydd Ewropeaidd i ddysgu am wahanol ffyrdd o addysgu a chefnogi lles disgyblion. Mae hyn, yn ei dro, wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at ddysgu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn dda. Cânt eu hysbysu'n dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae llywodraethwyr yn cyfarfod ag athrawon yn rheolaidd i drafod agweddau ar waith disgyblion a'r modd y mae mentrau yn effeithio ar agwedd disgyblion at ddysgu ac yn y cynnydd a wnânt. Mae llywodraethwyr unigol yn ymweld â'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft i helpu yng ngardd yr ysgol, cefnogi lles y disgyblion a gwrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu darparu lefel briodol o gymorth a her i arweinwyr. Mae llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldeb cyfreithiol o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr yn targedu cyllid yn dda i ddarparu ar gyfer anghenion academaidd ac emosiynol disgyblion, bodloni blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol a chefnogi hyfforddiant staff. Defnyddiant grantiau fel y grant datblygu disgyblion yn dda, i wella llythrennedd a lles emosiynol disgyblion bregus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  22/08/2022